



Gweithdrefn Gwahardd ac Apelio Cefnogwyr Cymdeithas Bêl-droed Cymru

- **Adran A**

Gorchmynion gwahardd

Bydd unrhyw gefnogwr Cymru sy'n cael ei arestio ac sy'n destun gorchymyn gwahardd gan y llysoedd hefyd yn destun gwaharddiad pellach gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ("CBDC"). Bydd hyd y gwaharddiad fel a ganlyn:

- Ar gyfer mater llys, gwaharddiad o 3-4 blynedd – bydd CBDC yn ychwanegu 2 flynedd
- Ar gyfer mater llys, gwaharddiad o 5-9 mlynedd – bydd CBDC yn ychwanegu 5 mlynedd
- Ar gyfer mater llys, gwaharddiad o 10 mlynedd a mwy – bydd CBDC yn gorfodi gwaharddiad oes

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'n bosib bydd yr unigolyn dan sylw yn destun gweithrediadau disgyblu o dan Adran E y Rheolau.

Ni fydd CBDC yn cefnogi unrhyw apêl yn erbyn gorchymyn gwahardd llys ond bydd yn derbyn ei ganlyniad a gostyngiad posib yn ddibynnol ar delerau ac amodau CBDC.

Gweithdrefn apelio

Mae'r hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad oes CBDC yn agored i bob cefnogwr unwaith mae'r gorchymyn gwahardd gwreiddiol gan y llysoedd wedi'i ddyfarnu.

Yna, bydd yn rhaid i gefnogwyr sy'n apelio yn erbyn unrhyw waharddiad ychwanegol gan CBDC:

- Basio asesiad gan yr heddlu
- Pasio cyfweiliad gan CBDC
- Dod yn aelod o'r Wal Goch

Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, bydd yn rhaid i'r cefnogwr ddisgwyl 12 mis arall cyn cyflwyno cais newydd i godi unrhyw waharddiad gan CBDC.

Bydd unrhyw gefnogwr nad yw'n cydymffurfio â gwaharddiad CBDC (h.y. ceisio cael mynediad at unrhyw faes lle mae Cymru yn chwarae) yn cael gwaharddiad 12 mis pellach gan CBDC yn ôl disgrisiwn CBDC.

- **Adran B**

Rheoliadau maes / Camymddwyn – dwyn anfri ar CBDC

Bydd unrhyw gefnogwr Cymru sy'n mynd yn groes i'r rheoliadau maes perthnasol a/neu delerau ac amodau CBDC yn cael rhybudd a/neu waharddiad gan ddibynnu ar natur y drosedd. Bydd CBDC yn penderfynu ar hyd y gwaharddiad ac yn cyfeirio at y rhestr flaenorol am ganllawiau.

Mae gwaharddiadau CBDC yn cynnwys pob gêm gartref ac yn atal y rheiny sydd wedi'u gwahardd rhag prynu unrhyw docynnau i gemau oddi cartref drwy swyddfa docynnau CBDC.

Felly, bydd unrhyw gefnogwr Cymru sy'n mynd yn groes i reoliadau maes drwy ei (g)weithredoedd a/neu delerau ac amodau CBDC, yn dwyn anfri ar CBDC neu'n tarfu ar CBDC rhag cynnal ei gweithdrefnau arferol yn, gan ddibynnu ar natur ei (h)ymddygiad yn cael gwaharddiad am gyfnod o amser fel y pennir gan CBDC

Dyma fydd hyd y gwaharddiad fel arfer:

- Yn dilyn rhybuddion am fân droseddau a/neu fynd yn groes i reoliadau maes – 3 mis gydag isafswm o ddwy gêm tîm cyntaf dynion Cymru
- Yn dilyn troseddau sylweddol a/neu amharu ymhellach ar weithdrefnau CBDC – 6 mis gydag isafswm o dair gêm tîm cyntaf dynion Cymru
- Yn dilyn amhariad parhaus ar weithdrefnau CBDC – 12 mis
- Gall cefnogwyr sy'n dangos ymddygiad bygythiol a/neu frawychus ddisgwyl cael gwaharddiad CBDC yn syth am o leiaf 18 mis.

Dyma'r broses apelio ar gyfer yr uchod:

- Llai na 6 mis – dim apêl
- Mwy na 6 mis – apelio ar ôl 6 mis
- Mwy na 12 mis – apelio ar ôl 9 mis neu hyd nes y bydd 75% o'r gwaharddiad wedi'i gwblhau fel y penderfynir gan CBDC.

Yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd CBDC a'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Heddlu De Cymru, bydd pob parti gan gynnwys yr Awdurdod Trwyddedu Pêl-droed, FIFA, UEFA, yr Heddlu a'r awdurdodau Pêl-droed perthnasol (lle mae CBDC o'r farn bod hynny'n briodol) yn cael gwybod pan gaiff gwaharddiad CBDC ei weithredu.

Ni fydd unrhyw berson sy'n cael gwaharddiad CBDC yn gymwys i gael unrhyw ad-daliad na disgownt mewn perthynas â thocynnau unigol, tocynnau ymgyrch nac aelodaeth o'r Wal Goch.

Gall gwaharddiadau CBDC sy'n fwy na blwyddyn arwain at ganslo tocynnau, aelodaeth ac unrhyw ddisgowntiau CBDC perthnasol.

Bydd gwaharddiadau CBDC yn gymwys mewn unrhyw stadiwm a weithredir neu a reolir gan CBDC a gallant gael eu cyhoeddi o fewn CBDC neu gyfryngau eraill fel y mae'n credu sy'n briodol.

Ar gyfer ac ar ran Cymdeithas Bêl-droed Cymru.